

**Sut y gellir hyrwyddo Y Cwricwlwm Cymreig drwy
Hanes yng Nghyfnod Allweddol 2?**

XXXXXX

BA (Anrh) mewn Addysg Gynradd gyda SAC

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Ebrill 2015

Diolchiadau

Hoffir ddiolch i'r unigolion a gyfrannodd at y prosiect ymchwil hwn. Diolch am eu hamser, syniadau, a safbwyntiau gwerthfawr sydd wedi helpu i lunio canlyniadau'r ymchwil. Yn ogystal, diolch i'r ddwy ysgol (a'r penaethiaid) am eu caredigrwydd a'u parodrwydd i helpu ac am eu caniatâd i ddosbarthu'r holiaduron a chyfweld athrawon.

Nodir mai gwaith yr ysgrifennwr yw'r gwaith yng nghynnwys y traethawd yma, ac eithriad lle cyfeirir at waith eraill. Deallir fod unrhyw waith a ddefnyddiwyd heb gyfeirio ato yn weithred o lôn-ladrad.

Cynnwys:

1.0. Cyflwyniad

2.0. Adolygiad Llenyddiaeth

2.1. Diffiniad o'r Cwricwlwm Cymreig

2.2. Datblygiad hanesyddol y Cwricwlwm Cymreig

2.3. Datblygiadau diweddar

2.4. Diffiniad o'r Dyniaethau

3.0. Methodoleg

4.0. Canlyniadau a Thrafodaeth

4.1. Dysgu am yr hanes lleol

4.2. Defnyddio adnoddau/ lleoliadau perthnasol, e.e. amgueddfeydd, arteffactau ac ymwelwyr.

4.3. Datblygu cysylltiadau agos

4.4. Rhoi pwmpas i ddysgu am agweddau o'r Cwricwlwm Cymreig

5.0 Casgliad

Rhestr o gyfeirnodau

Atodiadau

1.0. Cyflwyniad

Nod y prosiect ymchwil yma ydy ymchwilio i sut y gellir hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig (CC) drwy'r pwnc Hanes yng Nghyfnod Allweddol 2. Er mwyn cyflawni'r nod yma, fe holwyd athrawon ac oedolion proffesiynol eraill ynglŷn â sut y cyflwynir y CC mewn ysgolion cynradd yng Nghymru a sut gellir ei hyrwyddo ymhellach drwy'r pwnc Hanes. Yn ogystal, fe ddarllenwyd polisïau ysgolion amrywiol ac adroddiadau Estyn yn ymwneud â'r pwnc penodol yma.

Fe benderfynwyd ymchwilio ymhellach i'r cwestiwn ymholi yma oherwydd diddordeb personol yn natblygiad y CC a'i effaith ar addysg, ac yn enwedig yr iaith Gymraeg a'i bresenoldeb yn yr ysgol gynradd. Credir fod gan y CC nifer o elfennau cyffrous a phwysig i'w cynnig drwy addysg yn y pynciau craidd ac all-graidd sy'n rhan annatod o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Wedi dweud hynny, er bod y CC yn hanfodol mewn addysg gynradd, nid yw bob amser yn cael ei gynnwys a'i ddefnyddio'n addas yn yr ystafell ddosbarth. Felly, bwriad yr ymchwil yma ydy darganfod ffyrdd o gyflwyno'r CC trwy fwy o bynciau, yn enwedig Hanes, gan obeithio bydd y canlyniadau o gymorth i athrawon gan gynnig syniadau newydd.

'Un nodwedd y dylid gwneud disgyblion yn ymwybodol ohoni yw ymdeimlad o le a threftadaeth, a hynny wedi ei selio ar empathi a dealltwriaeth.'

- Papur Ymgynghorol 18 CCC, 1993

Pwysleisia 'Papur Ymgynghorol 18 CCC' bwysigrwydd cyflwyno addysg am Gymru a Chymreictod i ddisgyblion ifanc y wlad er mwyn sicrhau'r nifer fwyaf o gyfleoedd cadarnhaol iddynt. Cytunir yn gryf y dylid gosod pwyslais ar gyflwyno i blant ymdeimlad o berthyn a chyflwyno'r wybodaeth am ddiwylliannau, ieithoedd a thraddodiadau Cymru iddynt. Diffinnir Y Cwricwlwm Cymreig (CC) gan ACCAC (2003) fel cwricwlwm sy'n helpu disgyblion i ddeall a dathlu ansawdd penodol byw a dysgu yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'n sicrhau hefyd ymdeimlad o Gymreictod ac yn sicrhau cyfleoedd i blant deimlo eu bod yn perthyn i'w cymuned leol a'u gwlad. Mewn gwirionedd, nid ar ei ben ei hun y dylid addysgu'r CC, ond gan ddefnyddio adnoddau ac offer pwrpasol yn ogystal, sy'n sicr o gyfoethogi'r dysgu a'r addysgu.

Gwelwyd o Brofiad Addysgu Proffesiynol (PAP) bod y CC yn cael ei gyflwyno drwy rhai pynciau yn achlysurol ond ni chredir y caiff ei amlygu'n ddigonol. Gwelwyd fod ceisio cyflwyno'r CC mewn amryw o bynciau a sesiynau yn heriol, ac ar adegau yn amhosib o dan yr amgylchiadau. Hynny yw, yn dibynnu ar y thema sy'n rhedeg trwy'r tymor, gall geisio

cynnwys y CC fod yn dasg eithaf hawdd sy'n gweddu'n naturiol â'r sesiynau a addysgir. Ar y llaw arall, os ydy'r ysgol yn dilyn cynllun gwahanol, er enghraifft "Cornerstones" yna fe all y dasg o gyflwyno'r CC fod yn anoddach ac yn fwy heriol, neu yn llawer haws- yn ddibynnol ar y thema. Dylid cysidro hefyd bod gwahanol bynciau yn cynnig cyfleoedd amrywiol i gyflwyno ac integreiddio'r CC. Er enghraifft, gwelwyd o brofiad personol bod Mathemateg yn bwnc sydd ddim yn cyflwyno elfennau o'r CC yn naturiol, oni bai bod y dysgu'n drawsgwricwlaidd. Eto, mae'n dibynnu ar gynllun yr ysgol ac os ydynt yn addysgu pynciau yn annibynnol neu yn drawsgwricwlaidd.

Credir yn gryf bod gan y CC lawer i'w gynnig i ddisgyblion o 3-19 oed yn ystod eu haddysg ac y gallai gael effaith sylweddol ar ddysgu ac addysgu. Yn dilyn PAP, credir y dylid rhoi mwy o sylw, a sylw penodol i'r cwricwlwm unigryw yma er mwyn sicrhau bod ei effeithiolrwydd yn cael ei fanteisio i'r eithaf a'i ddefnyddio i'w llawn botensial mewn addysg yng Nghymru.

2.0. Adolygiad Llenyddiaeth

Canolbwyntia'r bennod hon ar y llenyddiaeth a adolygwyd ac archwiliwyd at ddiben yr ymchwil. Yn dilyn darllen a dadansoddi nifer o ddogfennau a llyfrau academiaidd yn ymwneud â'r CC, magwyd gwybodaeth a dealltwriaeth o'i bwysigrwydd a'i gyfraniad at addysg, yn enwedig yn yr ysgol gynradd. Archwiliwyd adroddiadau Estyn ac enghreifftiau o astudiaethau achos mewn ysgolion. Yn ogystal, ymchwiliwyd i lawer o lenyddiaeth sy'n canolbwyntio ar Hanes fel pwnc yng Nghyfnod Allweddol 2, a sut mae'r CC yn plethu gydag ef.

2.1. Diffiniad o'r Cwricwlwm Cymreig

Diffinia Estyn (2001) y Cwricwlwm Cymreig fel dimensiwn Cymreig y Cwricwlwm Cenedlaethol. Fe gysidrir y CC yn gwricwlwm sy'n fwy penodol nag erioed i ddisgyblion Cymru. Ceir elfennau gwahanol i'r CC (sonnir am rain nes ymlaen) sydd, gyda'i gilydd, yn ei ffurfio'n effeithiol ac yn ceisio sicrhau datblygiad disgyblion o ran eu hunaniaeth ac ymwybyddiaeth o hanes a bywyd Cymru. Noda ACCAC (2003) bod y CC yn helpu disgyblion i ddeall a dathlu ansawdd penodol byw a dysgu yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Fe'i datblygir er mwyn rhoi ymdeimlad i blant o berthyn i'w cymuned leol a'u gwlad yn ogystal â datblygu ymdeimlad o Gymreictod. Ategir hyn yn y 'Papur Ymgynghorol 18 CCC' wrth nodi y dylid gosod pwyslais ar gyflwyno i blant ymdeimlad o berthyn, trwy eu hannog i ddathlu'r ffaith fod diwylliannau, ieithoedd a thraddodiadau Cymru'n wahanol i rannau eraill o'r byd. Yn ogystal, mae'r gofyniad statudol am y CC yn rhan hanfodol o gwricwlwm ac ethos pob ysgol, ac mae'n helpu disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o Gymru gydwladol sy'n edrych allan i'r byd, gan hybu dinasyddiaeth fyd-eang (ACCAC 2003).

Yn dilyn arolygon ysgolion yng Nghymru ar gyfer y blynyddoedd 2003-4 a 2004-5, gwelwyd tystiolaeth gan Estyn (2006) o'r cynnydd a wnaed gan ysgolion wrth weithredu arweiniad ACCAC ar y CC o'r blynyddoedd cynnar i CA3. Noda Estyn bod y CC yn gwneud cyfraniad hanfodol at ddatblygu llythrennedd diwylliannol disgyblion. Gwelwyd hefyd bod penaethiaid yn gwerthfawrogi cyfraniad y CC at ddatblygiad personol, cymdeithasol a phersonol disgyblion. Profa hyn fod y CC yn cael effaith cadarnhaol a phwysig ar ddatblygiad plant o oedran cynnar a'i fod yn cyfrannu at eu datblygu'n unigolion llawn. Mae'n amlwg felly, o'r dystiolaeth yma, fod disgyblion yn elwa o ddysgu am eu hardal leol a'u gwlad, hanes a bywyd Cymru ac iaith a diwylliant y wlad. Yn ogystal, gwelir o adroddiad Estyn bod penaethiaid sydd wedi ymrwmo i'r CC yn ei ystyried yn agwedd allweddol ar y cwricwlwm ysgol. Cytunir â hyn yn gryf gan fod ganddo gymaint i'w gynnig i addysg yn yr ysgol, a gan

nad ydyw'n sefyll fel pwnc annibynnol, ceir llawer o gyfleoedd i'w gynnwys drwy'r pynciau craidd ac all-graidd, ond weithiau daw yn her i rai athrawon. Credir y byddai methiant i addysgu elfennau o'r CC yn yr ysgol gynradd yn gallu arwain at anfantais i'r disgyblion i ddysgu am hunaniaeth a'r gallu i ddatblygu ymdeimlad o berthyn, felly mae'n hynod bwysig bod cyfle cyfartal i bob plentyn sy'n byw yng Nghymru, er mwyn sicrhau datblygiad cyflawn.

2.2. Datblygiad hanesyddol y Cwricwlwm Cymreig

Amlyga sawl dogfen hanes y CC a sut y daeth yn weithredol mewn addysg, ond noda Estyn (2001) nad yw'r syniad o ddimensiwn Cymreig penodol o fewn cwricwlwm ysgolion yng Nghymru yn un newydd. Noda Estyn bod y Ddeddf Addysg 1998 wedi darparu cwricwlwm i ddisgyblion Cymru oedd yn fwy penodol nag erioed. Credir bod y ffaith fod Cymraeg fel pwnc wedi'i uwchraddio fel pwnc craidd mewn ysgolion Cymraeg gan y Ddeddf Addysg, yn newid cadarnhaol i'r byd addysg yng Nghymru. Yn dilyn datblygiad y CC, mae gorchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol wedi nodi y dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru, lle bo'n briodol (Estyn 2001). Rhain yw elfennau hollbwysig y CC sy'n darparu arweiniad i athrawon ac ysgolion i ddatblygu'r CC yn llwyddiannus.

Fe geir esboniad bras yn nogfen 'Papur Ymgynghorol 18' (1993) o'r elfennau sy'n ffurfio'r CC a sut y bwriedir datblygu'r disgyblion. Braf yw gweld bod yr elfennau isod yn parhau i fod yn ffactorau craidd i'r CC a bod yr un pwyslais arnynt hyd heddiw:

Ymdeimlad o berthyn;

Ymdeimlad o le a threftadaeth;

Ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iaith a llenyddiaeth yn hanes a bywyd Cymru;

Dealltwriaeth o'r celfyddydau creadigol a mynegiannol yng Nghymru;

Ymwybyddiaeth o'r ffactorau sydd wedi llywio credoau ac arferion crefyddol Cymru.

-Estyn, 2001.

Wrth edrych ychydig ar hanes y CC a sut y daeth yn weithredol yng Nghymru, noda ddogfen Dysgu Cymru (2013) pa mor lwcus ydyn ni fel gwlad, erbyn hyn, i feddiannu Cwricwlwm Cenedlaethol statudol yn ogystal â dogfen atodol sydd hefyd yn statudol (sef y CC). Rydyn ni'n lwcus fel cenedl bod gennym gwricwlwm arbennig i Gymru, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth o nodweddion pwysig o fewn y wlad. Nodir mai un o'r rhesymau dros y penderfyniad i gyflwyno Cwricwlwm Cenedlaethol ym 1988 oedd y ffaith bod gan bob ysgol unigol yng Nghymru'r rhyddid i ddewis y pynciau i'w dysgu, fel yr hoffent. Gellir dweud ar un llaw bod hyn yn beth da a chadarnhaol, gan alluogi athrawon i wneud penderfyniadau

addysgu yn dibynnu ar lefelau dealltwriaeth y disgyblion, nifer y disgyblion yn y dosbarth, ystod oedran y dosbarth, ac yn y blaen. Ar y llaw arall, roedd y rhyddid yma yn golygu y ceir amrywiaeth mawr yn safon addysg ar draws ysgolion y wlad, a oedd yn ansefydlog. Felly, y bwriad oedd sefydlu Cwricwlwm Cenedlaethol ar y cyd i Gymru a Lloegr, ond fe gytunwyd y dylid creu rhaglenni astudio gwahanol yng Nghymru mewn rhai pynciau, (Hanes a Daearyddiaeth) ar ôl cryn ymgyrchu. Fe gytunwyd y byddai pynciau megis Gwyddoniaeth a Mathemateg yn dilyn yr un cwricwlwm craidd yn y ddwy wlad. Fe ddaeth y cwricwlwm newydd yma a mwy o gysondeb ac arweiniad i addysg yn y wlad, gan sicrhau bod pob disgybl yn derbyn yr un wybodaeth am hanes Cymru a Phrydain. Yn fwy na dim, sicrhawyd Cwricwlwm Cymreig i ddisgyblion Cymru er mwyn canolbwyntio ar ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru- yn wahanol i'r hyn a ddysgwyd yn Lloegr.

Yn adroddiad Estyn (2001) ar arfer dda mewn addysgu a dysgu (y CC) gwelwyd tystiolaeth fod y CC yn cael ei ystyried yn agwedd bositif a bod nifer o ysgolion yn cefnogi'r syniad o weithredu cwricwlwm penodol i Gymru. Un dull a brofwyd yn effeithiol er mwyn ategu'r CC ac i hyrwyddo ethos ysgol nodweddiadol Gymreig oedd cynnal ystod o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys cysylltiadau â'r gymuned. Yn ogystal, cytunir bod sicrhau bod cydlynnydd o'r uwch dîm reoli ar gyfer y CC yn fwy tebygol o sicrhau proffil uchel o fewn bywyd yr ysgol.

Gwelwyd o astudiaethau achos y rhoddir lle amlycach i'r CC mewn pynciau megis Hanes a Daearyddiaeth. Gellir dweud bod hyn o ganlyniad i'r gorchmynion statudol gwahanol yng Nghymru ar gyfer y pynciau hyn. Wedi dweud hynny, gwelwyd bod gan athrawon ymwybyddiaeth gyfyng o ystod ac ansawdd yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer addysgu'r CC ac nid yw'r defnydd o TGCh a'r rhyngwyd wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Gofynnir y cwestiwn felly, sut gellir sicrhau bod y CC yn cael ei hyrwyddo drwy bynciau megis Hanes a Daearyddiaeth gan wneud defnydd priodol o'r adnoddau sydd ar gael, a beth yw'r adnoddau hynny? Dylid cysidro'r adnoddau arbennig sydd ar gael yng Nghymru yn unig, yn ogystal ag adnoddau mwy cyffredin a fyddai o bosib o gymorth.

2.3. Datblygiadau diweddar

Creda Kerr (1968:16) nad y Cwricwlwm Cenedlaethol yw'r holl ac unig gwricwlwm. Ydy, mae'n arwain yr hyn sy'n hanfodol i'w ddysgu ac addysgu ac mae'n gwricwlwm swyddogol sy'n cael ei ddilyn gan bob ysgol ond mae mwy i addysg na dim ond y Cwricwlwm Cenedlaethol. Awgryma hyn bod lle addas ar gyfer addysgu ac integreiddio'r CC, yn ogystal ag agweddau eraill megis ADCDF, sgiliau cyfathrebu a sgiliau TGCh trwy'r pynciau craidd ac

all-graidd. Ategir hyn gan Johnston et al (2002) wrth iddo egluro y dylai'r cwricwlwm fod yn gyfres gydlynol o brofiadau dysgu effeithiol sy'n galluogi'r dysgwr i ddatblygu sgiliau, dealltwriaeth a gwybodaeth. Credir bod hyn yr un mor wir am y CC hefyd, a dylai gael ei gyflwyno'n gyson a thrwy nifer o bynciau yn hytrach na cheisio ei wasgu i mewn i sesiynau ble nad yw'n ymddangos yn naturiol.

Mewn dogfen fwy diweddar, 'Y Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru' (2013)', nodwyd nad yw'r CC yn gwricwlwm ynddo'i hun ar hyn o bryd, ond yn hytrach yn agwedd ar y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru. Yn ôl y ddogfen hon, nod gwreiddiol y CC oedd sicrhau cwricwlwm cyflawn i Gymru sy'n integreiddio'r persbectif Cymreig i'r dysgu ac addysgu ym mhob pwnc. Gellir dweud bod y CC yn cael ei gam-ddeall gan rhai athrawon ac ysgolion, gan feddwl ei fod yn gwricwlwm sy'n sefyll ar ei ben ei hun yn hytrach na rhywbeth y dylid ei integreiddio. Yn ôl y ddogfen hon, nid yw pob ysgol yn deall y gofyn i sicrhau bod y CC yn berthnasol i ddysgwyr. Ar y llaw arall, ceir rhai ysgolion sy'n dangos enghreifftiau da o waith sy'n integreiddio'r CC i bynciau ar draws y cwricwlwm. Awgryma Dysgu Cymru (2013) un ffordd o geisio gwella hyn fyddai cynllunio'r dysgu ar sail themâu, yn hytrach na phynciau cwricwlaidd, a fyddai'n fwy tebygol o gynnig mwy o gyfleoedd i ddatblygiad y CC yn effeithiol. Mae'n bwysig cofio hefyd bwysigrwydd addasu'r cwricwlwm a sesiynau ble caiff y CC ei integreiddio, i gyd-fynd â gofynion yr unfed ganrif ar hugain.

Dros y blynyddoedd, gwelwyd sut mae'r CC wedi datblygu trwy addysg, ac erbyn hyn (2015) credir bod mwy o ddealltwriaeth o beth ydyw a sut y dylid ei addysgu. Ar y llaw arall, mae'n parhau i fod yn fater sy'n achosi pryder a chamddealltwriaeth i rai athrawon cynradd. Cysidrir felly, sut gellir datrys y broblem a cheisio hyrwyddo'r CC yn benodol trwy Hanes er mwyn cynnig syniadau ac arweiniad ar gyfer yr athrawon hyn ac athrawon y dyfodol. Yn ôl Estyn (2006) mae darpariaeth adnoddau ar gyfer y CC yn foddhaol ar y cyfan ond nid yw'n dda nag yn rhagorol. Wedi dweud hynny, ceir datblygiad pellach dros y blynyddoedd diwethaf, er enghraifft ceir fwy o adnoddau trwy gyfrwng y Gymraeg sydd yn gymorth i athrawon wrth addysgu yn hytrach na gorfod addasu adnoddau o'r Saesneg.

Dadleua Donaldson (2015) yn ei Adolygiad diweddar fod y cwricwlwm wedi datblygu i fod yn orlawn, cymhleth ac mewn mannau, yn hen ffasiwn. Felly, mae ei awgrymiadau yn rhoi cyfleoedd i adeiladu cwricwlwm newydd i Gymru sydd yn addas ar gyfer yr 21ain ganrif. Adlewyrcha'r cwricwlwm yn ysgolion Cymru (fel rhannau eraill yn y DU) syniadau cyffredin yr oes, a'r rheiny'n amrywio o athroniaeth 'Plowden' (1967) a'i phwyslais ar addysg blentyn-ganolog. Noda Donaldson (2015) mai un o'r 'pethau gorau' am addysg yng Nghymru a gybrwyllwyd amlaf yw'r ffocws ar hunaniaeth Cymru a'r CC. Credir fod hyn i'w ganmol, a

dylid ceisio defnyddio'r wybodaeth gadarn yma i helpu i hyrwyddo'r CC trwy Hanes yn benodol. Cadarnha'r Adolygiad y dylai pynciau gael eu grwpio o fewn chwe Maes Dysgu a Phrofiad yn y cwricwlwm newydd gyda phob un yn cynnwys dimensiwn Cymreig, lle bo'n briodol.

Noda Davies (2013) mai 'profiad diflas dros ben' yw dysgu'r iaith Gymraeg i lawer o bobl ifanc ac nad ydynt 'yn gweld y pwnc yn berthnasol nac o unrhyw fudd iddynt'. Pwysig yw cofio bod y Gymraeg fel pwnc yn cael ei gysidro'n wahanol iawn i'r Cwricwlwm Cymreig a ni ddylid eu cymysgu wrth addysgu, yn enwedig gan fod y ddau yn cynnig profiadau a gwybodaeth wahanol. Hynny yw, drwy'r pwnc Gymraeg dylai'r disgyblion ddysgu gramadeg, barddoniaeth, strwythurau ysgrifennu e.e. stori, llythyr, dyddiadur, ac yn y blaen. Ar y llaw arall, canolbwyntia'r CC ar ddatblygu ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth disgyblion drwy ei gyflwyno trwy bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Wedi dweud hynny, ni ellir anwybyddu'r cysylltiad cryf ac amlwg rhwng y Gymraeg fel iaith a'r hyn a ddysgir am y CC. Er mwyn ysgogi disgyblion ein cenedlaeth a'u hannog i sylweddoli pwysigrwydd dysgu'r iaith, hanes y wlad, y diwylliant a'r traddodiadau sy'n elfennau cryf yng Nghymru, mae angen i athrawon ac unigolion eraill o fewn y byd addysg ddatblygu dulliau effeithiol i sicrhau hynny. Heb weld y cysylltiad rhwng y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, mi fydd plant a phobl ifanc yn parhau i gredu ei fod yn amherthnasol iddynt gan nad ydynt yn ymwybodol o'r cysylltiad cryf sydd ganddynt â'u gwlad.

2.4. Diffiniad o'r dyniaethau

"Part of the primary curriculum that is concerned with individual human beings living and working in particular places and linked together with groups and societies, past and present."

Blyth, 1990

Dyma sut ddiffinnir y Dyniaethau gan un o nifer o ddamcaniaethwyr. Ceir nifer o wahanol ddiffiniadau ar gyfer y Dyniaethau gan ei bod hi'n anodd cytuno ar un diffiniad cadarn sy'n addas ar gyfer yr holl elfennau o fewn y Dyniaethau. Diffinia Grigg (2013) y Dyniaethau fel; "put simply, the humanities explore human experience". Yn fwy penodol, daw'r gair 'history' (sef hanes yn Saesneg) o'r gair Groegaidd '*historia*' a olygai ymchwiliad neu ymholi, felly gellir cysidro'r pwnc Hanes fel rhyw fath o ymchwiliad i ddigwyddiadau a hanesion am bobl sydd wedi digwydd yn y gorffennol.

Honna Lewis (2000) bod Hanes yn galluogi disgyblion i ddatblygu synnwyr o amser a chronoleg a dechrau deall sut roedd pobl yn byw yn y gorffennol. Mae'n addysgu am ddigwyddiadau a phobl enwog, ac yn galluogi disgyblion i gael cipolwg a syniad bras o sut mae eu cymuned eu hunain wedi esblygu dros amser. Pan gaiff y pwnc ei addysgu'n dda,

darparai fodd i'r disgyblion ddatblygu ystod eang o sgiliau a galluoedd sy'n gysylltiedig â'r pwnc. Ategir hyn gan y Cwricwlwm Cenedlaethol, ble nodwyd:

“Byddant yn cael profiadau sy'n gwneud hanes yn ddiddorol, arwyddocaol ac yn rhywbeth i'w fwynhau. Byddant yn datblygu eu chwilfrydedd am y gorffennol, nodweddion gwahanol gyfnodau yn y gorffennol, o'r cyfnodau cynharaf hyd heddiw, a'r ffyrdd y maent yn wahanol i'w gilydd ac i'r presennol.”

-APADGOS (2008)

O fewn y rhaglen astudio Hanes (Cwricwlwm 2008) dylai athrawon ganolbwyntio ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o fywyd bob dydd a cheir pwyslais cryf ar sgiliau ymholi. Er mwyn datblygu chwilfrydedd a gwybodaeth o hanes, disgwylir i ddisgyblion ymgymryd ag ymchwiliadau hanesyddol, ac fe ddarperir y strwythur angenrheidiol ar gyfer hynny drwy'r defnydd o gwestiynau allweddol.

3.0. Methodoleg

Er mwyn ceisio canfod sut y gellir hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig trwy Hanes yng Nghyfnod Allweddol 2 fe ddefnyddiwyd ymchwil ansoddol a dulliau gwahanol o ganfod y wybodaeth berthnasol. Defnyddiwyd dulliau ymchwil yn cynnwys cyfweiliadau un i un manwl, nodiadau ar wersi a arsylwyd ac adfyfrio ar brofiadau addysgu dosbarth personol. Wrth gasglu gwybodaeth a magu dealltwriaeth o sut caiff y CC ei gyflwyno mewn ysgolion cyfredol, roedd yn darparu syniad o sut y gellir gwella'r agwedd yma a dod i gasgliad o'r ffordd/ ffyrdd gorau o'i hyrwyddo drwy Hanes a sut i wneud hynny yn llwyddiannus. Fe wnaethpwyd yr ymchwil mewn modd moesol a chywir a ni chafodd unrhyw unigolyn niwed yn y broses o gasglu gwybodaeth.

Credir bod y dull o gyfweld unigolion mewn sesiynau un i un wedi bod yn ffordd effeithiol iawn o ganfod y wybodaeth mewn sefyllfa gyffyrddus a naturiol. Gan ddefnyddio offeryn recordio llais, roedd modd i'r unigolyn ymateb yn naturiol gan ddweud gymaint â ddymunai. Hynny yw, golyga'r dull yma o ymchwilio nad oedd angen i'r unigolion gyfyngu eu hatebion. Yn ogystal, ceir cyfleoedd i ymestyn ar ateb a roddwyd drwy ofyn cwestiwn agored pellach am y pwynt a wnaed, os oedd angen neu'n ddymunol. Ar y llaw arall, roedd angen neilltuo digon o amser i holi'r cwestiynau ac roedd y broses gyfan yn cymryd mwy o amser na ragdybiwyd ac felly'n defnyddio amser prin yr athrawon prysur a gyfwelwyd. Ar y cyfan, credir bod y dull yma yn un llwyddiannus ac effeithiol ac wedi sicrhau canlyniadau gwerthfawr i'r ymchwil.

Gan gasglu'r holl wybodaeth a thystiolaeth ynghyd ac ystyried ymatebion yr unigolion a gyfwelwyd, gellir dweud bod gwybodaeth bwysig a helpgar wedi'i gyfrannu at yr ymchwil. Gan adeiladu ar y wybodaeth newydd yma drwy ddadansoddi a gwerthuso, gobeithir cynhyrchu gwybodaeth newydd a bydd canlyniadau'r ymchwil yn darparu sail gadarn i eraill i ddatblygu'u hymarfer ar lawr y dosbarth.

Fe gwblhaodd rhai cyfranogwyr holiadur ar gyfer yr ymchwil, ac fe gynhaliwyd cyfweiliadau un i un gydag eraill. Gwelir isod restr o'r cyfranogwyr a gyfrannodd at y canlyniadau ar gyfer yr ymchwil hwn:

- darlithydd yn Ysgol Addysg Bangor ar gyfer y cwrs BA Addysg Gynradd- Elen Huws;
- darlithydd ac arbenigwr yn y pwnc Hanes yn Ysgol Addysg Bangor- Gwyn Ellis;
- dirprwy bennaeth ac athro CA2 rhan-amser mewn ysgol drefol yng Ngogledd Cymru- Aled Williams;

- athrawes Hanes mewn ysgol uwchradd drefol- Catrin Rees;
- athrawes gynradd sy'n gwneud gwaith llanw yng Nghyfnod Allweddol 2 yn ogystal â Chyfnod Sylfaen- Olwen Gwilym.

4.0. Canlyniadau a Thrafodaeth

Yn dilyn trafod âg unigolion proffesiynol a phrofiadol, fe fagwyd gwell syniad o sut y gellir hyrwyddo'r CC trwy Hanes yng Nghyfnod Allweddol 2. Fe rannodd y cyfranogwyr wybodaeth a syniadau defnyddiol i gyfrannu at yr ymchwil ac fe geir rhai enghreifftiau a thystiolaeth yn y bennod hon.

4.1. Dysgu am yr hanes lleol

“Mae'r arolygwyr wedi dangos eu bod yn hoffi'r ffaith bod yr ysgol wedi addasu'r unedau sy'n rhan o'r cynllun (Cornerstones) i gyd-fynd â'n hardal leol ni yma.”

Dyma un o nifer sylwadau'r dirprwy bennaeth a phennaeth yr adran iau mewn ysgol yng Nghaernarfon, Gwynedd. Nododd bod yr ardal leol yn gallu cyfrannu llawer at addysgu hanes i ddisgyblion yn yr ysgol gynradd. Cytuna'r darlithydd addysg, Elen Huws â'r farn yma gan nodi: “gall addysg CA2 fod wedi ei selio ar brofiadau ac adnabyddiaeth o'r ardal leol, e.e. ymweld ag olion Oes yr Efydd yn Ardudwy”. Fe gefnogai hyn ddatganiad gan Ddysgu Cymru (2013) sy'n awgrymu un ffordd o geisio hyrwyddo'r CC a chynnig mwy o gyfleoedd i ddatblygiad y CC yn effeithiol fyddai cynllunio'r dysgu ar sail themâu, yn hytrach na phynciau cwricwlaidd.

Mewn rhai rhannau o Gymru yn enwedig, ceir cyfleoedd gwyh i ddysgu am hanes yr ardal leol trwy'r olion sydd yn dal i fod yno hyd heddiw neu thrwy chwedlau/ straeon cysylltiedig. Pwysleisiwyd pwysigrwydd llunio'r dysgu o amgylch yr hanes sy'n deillio'n naturiol o ardal benodol yn ogystal ag adeiladu ar ddiddordebau'r disgyblion. Fel y nodwyd gan yr athro Aled Williams, mae'r ysgol wedi'i chanmol am addasu'r argymhellion a nodwyd o dan unedau dysgu'r cynllun 'Cornerstones' i gyd-fynd yn addas â'r hyn sy'n berthnasol i'w hardal leol. Gall hyn olygu astudio chwedl arbennig neu ddathliadau perthnasol i Gymru/ ardal leol, i enwi rhai enghreifftiau.

Wrth astudio'r ardal leol, creda Catrin Rees (athrawes Hanes mewn ysgol uwchradd) drwy wneud prosiectau lleol yn seiliedig ar hanes yr ardal, gallai helpu'r disgyblion i ddysgu am eu hunaniaeth a chytunir fod hyn yn elfen bwysig iawn pan yn ifanc a thrwy'r broses o ddatblygu'n oedolyn. Fe gefnogir hyn gan ACCAC (2003) wrth iddynt amlygu bod y CC wedi'i ddatblygu er mwyn rhoi ymdeimlad i blant o berthyn i'w cymuned leol a'u gwlad yn ogystal â datblygu ymdeimlad o Gymreictod. Gellir dod i'r canlyniad felly bod dysgu am hanes yr ardal leol a'r wlad yn sicr o gynnwys yr elfennau diwylliannol a hanesyddol y CC ac felly'n bendant yn hyrwyddo'r CC. Yn ôl barn Aled Williams, edrych ar yr hanes lleol ac agos

yw'r fwyaf effeithiol, e.e. llifogydd a'u heffaith ar yr ardal a'i phobl. Trwy wneud hyn, fe all y disgyblion fagu sgiliau ehangach hefyd, er enghraifft empathi.

Fe ofynnwyd y cwestiwn "ydy dysgu am hanes Cymru yn bwysig a pham?" i'r darlithydd Elen Huws ac amlyga ei barn bersonol ei fod yn hanfodol. Credai hyn oherwydd mae'n cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o Gymru ac eto, yn creu ymdeimlad o berthyn ac "mae'n rhaid i ni ddeall ein hanes er mwyn i ni wybod pwy ydym". Mae'n bwysig fod plant yn sylweddoli o le maent wedi dod, beth yw cefndir eu teidiau a'u hen-deidiau a pha effaith mae hyn wedi ei gael arnyn nhw a sut mae eu dyfodol yn edrych o safbwynt Cymro a Chymraes.

Creda Aled Williams ei bod yn bwysig i ysgolion gymryd mantais o'i lleoliad os oes potensial i ddysgu am hanes yr ardal leol yno. Er enghraifft, yn yr ysgol hon yng Nghaernarfon, ceir cysylltiadau cryf â stori Macsen Wledig, ac o ganlyniad, bu'r disgyblion yn astudio'r stori ac yn dysgu'n draws-gwricwlaidd drwyddo. Noda'r athro, "ychydig o filltiroedd tu allan i'r dref, mae 'na gymaint o gyfleoedd unigryw i ddysgu am hanes yr ardal leol a Chymru fel gwlad." Rhai enghreifftiau o hyn ydy'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis, Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy a Chastell Penrhyn. Wrth gwrs, mae'r amgueddfeydd a'r lleoliadau lleol yn amrywio yn dibynnu ym mha ardal o'r wlad mae'r ysgol wedi'i lleoli.

Gwelwyd o brofiad personol, bod disgyblion yn aml yn mwynhau dysgu am yr ardal maent yn byw ynddi a'r newidiadau hanesyddol sydd wedi digwydd ac wedi cyfrannu at yr ardal sydd ohoni erbyn heddiw. Yn ogystal, gwelwyd fod disgyblion (blynyddoedd 4 a 5) yn gyffrous ac yn eiddgar i ddysgu am y newidiadau cyfredol a ddigwyddai yn y dref leol a beth fyddai effaith y newidiadau hynny arnynt hwy a'u bywydau. Er enghraifft, fe luniodd y disgyblion holiadur i bob dosbarth yn yr ysgol er mwyn darganfod barn unigolion ynglŷn â dod a archfarchnad i'r dref. Fe astudiwyd rywfaint o hanes y dref a pha gyfleusterau (e.e. siopau, archfarchnadoedd, bwytai, tafarndai ayyb) sydd wedi bodoli yno dros y blynyddoedd a beth fyddai effaith dod ag archfarchnad newydd yno. Credir fod y disgyblion wedi mwynhau bod yn rhan o'r newid a magwyd sgiliau ychwanegol yn ogystal, megis hunanhyder i leisio'u barn eu hunan a sgiliau cyfathrebu wrth drafod âg eraill.

4.2. Defnyddio adnoddau/ lleoliadau perthnasol, e.e. amgueddfeydd, arteffactau ac ymwelwyr gwadd.

Mae defnyddio adnoddau perthnasol i ddysgu ac addysgu yn ffordd effeithiol arall o hyrwyddo'r CC drwy Hanes. Gall y defnydd o amgueddfeydd, arteffactau amrywiol ac ymwelwyr perthnasol ychwanegu at, a chyfoethogi'r dysgu i'r disgyblion. Yn ôl barn y darlithydd addysg Elen Huws, gall addysg yn CA2 gynnwys "dehongli hanes Castell Caernarfon trwy lygaid y Cymry." Mae lleoliadau hanesyddol megis cestyll yn cynnig

cyfleoedd arbennig i ddod a hanes yn fyw a galluogi'r disgyblion i ddychmygu bywyd ers talwm. Ategir hyn gan Aled Williams, wrth iddo egluro bod yr ysgol wedi cael cyfleoedd i ymweld â chestyll lleol yn ogystal ag amgueddfeydd er mwyn cyflwyno gwybodaeth ac addysgu mewn modd mwy cyffrous a realistig y gall y disgyblion uniaethu âg ef.

Yn ogystal ag ymweld â lleoliadau hanesyddol, mae'n bosib derbyn ymweliad gan rhai sefydliadau i'r ysgol hefyd. Un enghraifft o'r math yma o ymweliad yw un gan yr archifdy lleol. Cytunir gyda'r farn bod y math yma o ymweliad yn llwyddo i ddod â hanes yn fyw ar lawr y dosbarth, sydd yn fuddiol iawn i'r disgyblion. Gellir manteisio i'r eithaf o'r fath yma o ymweliadau, gan gwestiynu'r ymwelydd drwy baratoi cwestiynau o flaen llaw, casglu gwybodaeth a data ayyb. Gellir cynnal sesiynau ychwanegol yn dilyn ymweliad yn ogystal, gan ganolbwyntio ar yr hyn a ddysgwyd a gwneud gwerthusiad neu ddadansoddiad o'r wybodaeth a gasglwyd. Yn ogystal, gall ymweliad o'r fath sbarduno sesiynau trawsgwricwlaidd, e.e. sesiwn iaith ble all y disgyblion ysgrifennu am y profiad ar ffurf erthygl papur newydd. Yn amlwg, byddai ymweliad gan arbenigwr o'r archifdy yn cyflwyno gwybodaeth am hanes pobl yr ardal/ gwlad a ffeithiau diddorol am y bobl hynny, felly gwelir sut blethir hanes a'r CC gyda'i gilydd yma.

Dywed Estyn (2006) bod darpariaeth adnoddau ar gyfer y CC yn foddhaol ar y cyfan ond nid yw'n dda nag yn rhagorol. Ceir nifer helaeth o adnoddau trwy gyfrwng y Saesneg sy'n golygu bod rhaid i athrawon, yn aml, gyfieithu adnoddau. Wedi dweud hynny, mae'r sefyllfa wedi datblygu a gwella rhywfaint dros y blynyddoedd diweddar sy'n golygu y ceir mwy o adnoddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu, megis amgueddfeydd cyfrwng Cymraeg, cestyll a lleoliadau hanesyddol eraill, mae'n goroesi'r broblem o ddiffyg adnoddau, mewn ffordd. Gan ddefnyddio cyngor yr arbenigwyr ac athrawon a gyfrannodd eu gwybodaeth, dealltwriaeth a syniadau at yr ymchwil yma, dylid manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau hyn sydd ar gael. Noda un athro CA2: "mae'r profiadau yma i gyd yn cyfrannu at ddod a'r hanes yn fyw i'n disgyblion ac yn gwneud yr holl beth yn fwy diddorol a pherthnasol iddyn nhw."

Yn ogystal, dylid cysidro datblygiad rhai o elfennau'r CC wrth ddysgu yn y dull hwn. Yn naturiol, fe ddatblygir yr elfen hanesyddol o'r CC: "ymweld â safleoedd hanesyddol, defnyddio arteffactau, gwneud cymariaethau rhwng y gorffennol a'r presennol". Hefyd, bydd yr elfen ddiwylliannol yn cael ei amlygu drwy ddefnyddio arteffactau a lleoliadau a cheir cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu gwybodaeth am eu cymunedau'u hunain ynghyd a'u gwerthoedd a'u traddodiadau.

Yn yr oes sydd ohoni erbyn hyn, mae technoleg fodern wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diweddar ac fe welir ei effaith yn amlwg ar y byd addysg. Gall adnoddau

technolegol fod yn gymorth i athrawon ar lawr y dosbarth wrth addysgu a dysgu. Yn ôl y canlyniadau, gwelwyd barn un athro yn amlygu'r ffaith y gall y rhaglen "youtube" gael ei ddefnyddio'n effeithiol yn y dosbarth i hyrwyddo'r CC. Gellir cymryd y cyfle i ddysgu am elfen amgylcheddol y CC drwy ddysgu am ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru a'r byd ehangach (er enghraifft).

4.3. Datblygu cysylltiadau agos

"Un ffordd rydan' ni yn ceisio hyrwyddo'r CC trwy'r holl bynciau (nid Hanes yn unig) ydy magu cysylltiad agos âg Ysgol yr Hendre yn Nhrelew, Patagonia."

Dyma oedd cyfraniad un athro CA2 sydd wedi arbenigo yn y maes Hanes yn y brifysgol ac yn addysgu blynyddoedd 5 a 6. Cytunir gyda'r farn bod hanes, ac yn fwy penodol, hanes lleol, sirol neu wladol yn llifo drwy nifer o bynciau craidd ac all-graidd eraill. Wrth fagu cysylltiad agos âg ysgolion tramor, caiff nifer o ddrysau eu hagog sy'n cynnig cyfleoedd newydd i ddysgu ac addysgu yn yr ysgol gynradd. Mae'n rhoi syniad i'r disgyblion sut mae pobl eraill ar draws y byd yn byw ac yn dysgu a beth yw'r elfennau tebyg a gwahanol rhyngddynt hwy yng Nghymru. Gwelwyd buddion ymweliad gan ddisgyblion a staff yr ysgol ym Mhatagonia wrth iddynt ymweld â'r ysgol benodol hon yng Nghaernarfon. Mae ymweliad o'r fath yn sicrhgu o gynnydd profiadau newydd a chyffrous i ddisgyblion gan eu cyflwyno i iaith newydd (Sbaeneg), traddodiadau ac arferion gwahanol a diwylliant yn ogystal. Yn sicrhgu, mae profiadau o'r fath yn bendant o hyrwyddo'r CC yn ogystal ag agweddau a sgiliau eraill, yn benodol oherwydd y cysylltiad cryf sy'n bodoli rhwng Cymru a Phatagonia yn naturiol.

Wedi dweud hynny, dylid cysidro nad oes gan bob ysgol y gallu na'r arian i wneud ymweliad o'r fath. Gall ymweliadau fel hyn fod yn gostus iawn i'r ysgol a golygai bod angen trefnu'n drylwyr a chywir o flaen llaw er mwyn sicrhgu ymweliad llwyddiannus. Fel y nodwyd yn y cyfweiliad, nid yw'r ysgol benodol hon yng Nghymru wedi cael cyfle i ymweld â'r ysgol ym Mhatagonia eto, ond mae hynny yn brosiect sydd ar y gweill.

Nodwyd mewn un holiadur a gwblhawyd gan un o'r cyfranogwyr bod dysgu am hanes Cymru fel gwlad yn hollbwysig i ddisgyblion cynradd 'er mwyn i blant ddeall a chysylltu'r hyn sydd wedi digwydd yng Nghymru dros y canrifoedd ac i'n safle yn y byd sydd ohoni ar hyn o bryd.' Ceir cyfle i ddatblygu hyn drwy'r profiad o ymweld â, neu fagu cysylltiad agos ag ysgol fel Ysgol yr Hendre ym Mhatagonia gan fod hanes Cymru yn cynnwys yr ymfudiad i Batagonia ganrif yn ôl. Drwy fagu gwybodaeth, dealltwriaeth a dysgu am y cysylltiad rhwng Cymru a Phatagonia, byddai'r elfen ddiwylliannol o'r CC yn bendant yn cael ei addysgu. Hynny yw; 'bydd y disgyblion yn archwilio'r cysylltiadau rhwng Cymru, y DU, Ewrop a'r byd ehangach' (ACCAC, 2003).

4.4. Rhoi pwrpas i ddysgu am agweddau o'r Cwricwlwm Cymreig

Ni ellir pwysleisio ddigon ar bwysigrwydd sicrhau bod beth a addysgir i'n disgyblion yn gwneud synnwyr iddynt yn ogystal â bod pwrpas i'r dysgu a'r addysgu. Mae ymrwymiad disgyblion yn y dosbarth ac wrth gyflawni gwaith yn dibynnu ar eu diddordebau a pha mor eiddgar ydynt i ddysgu am thema benodol. Mae'n bwysig cofio hyn wrth gyflwyno agweddau o'r CC gan sicrhau fod y gwaith yn berthnasol i'r dysgwyr.

Amlyga nifer o'r unigolion proffesiynol sydd wedi cyfranogi yn yr ymchwiliad hwn, bod nifer o wahanol ffyrdd o hyrwyddo'r CC yn effeithiol drwy Hanes yn ogystal â'r pynciau eraill. Noda Elen Huws mai un o'r ffyrdd gorau o sicrhau cyflwyno elfennau'r Cwricwlwm Cymreig ar draws y cwricwlwm ydy seilio'r addysg ar brofiadau diriaethol, lleol. Wrth gynnal sesiwn sy'n cynnwys yr ardal leol a'r hyn sy'n perthyn i'r disgyblion ac yn amlwg sy'n bethau pwysig yn eu bywydau, daw'r dysgu yn fwy gwerthfawr gan roi mwy o bwrpas iddynt ddysgu. Yn ogystal, nodir ei fod yn bwysig i blant gael cyfleoedd i ddatblygu eu hunaniaeth drwy ddysgu caneuon gwerin, traddodiadol, cyfoes ac emynau, hynny yw- sicrhau eu bod yn dysgu corff sylfaenol o ganeuon Cymraeg. Efallai y gellir rhoi cyfleoedd wedyn i'r disgyblion rannu'r hyn a ddysgwyd yn gyhoeddus (gyda rhieni a'r gymdeithas leol) drwy gynnal noson agored neu ffair Haf ble all y plant ganu casgliad o ganeuon. Byddai hyn yn rhoi pwrpas i'r dysgu ac yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion fagu sgiliau ychwanegol, e.e. hunan-hyder.

Gwelir o un o ymatebion Gwyn Ellis ei fod yn credu'n gryf bod dysgu am hanes Cymru yn hanfodol ac yn aruthrol o bwysig yng Nghyfnod Allweddol 2 gan mai "dyma'r cyd-destun y gellir uniaethu gyda fo orau ac felly dyma'r man cychwyn cyn dod i ddeall am hanes ehangach". Felly, pwysleisir dysgu am hanes ein gwlad fel man cychwyn er mwyn yna deall mwy am hanes ehangach o amgylch y byd.

Yn dilyn trafod âg athro profiadol am fanteision addysgu elfennau o'r CC a'i effaith ar ddisgyblion yn yr ysgol gynradd, gwelwyd fod sgiliau llythrennedd disgyblion hynaf yr ysgol (blynyddoedd 5 a 6) yn dueddol o ddatblygu'n well pan gyflwynir y CC drwy'r pwnc Hanes. Hynny yw, wrth gael cyfleoedd i ddefnyddio'u sgiliau llafar trwy weithgareddau chwarae rôl (fel plentyn yn dioddef gwisgo'r 'Welsh Not') neu wrth drafod mewn grŵp beth yw'r rhesymau o blaid ac yn erbyn y 'Welsh Not'. Cefnogir hyn gan Estyn (2006) ble nodwyd fod y CC yn gwneud cyfraniad hanfodol at ddatblygu llythrennedd diwylliannol disgyblion.

5.0 Casgliad

Dangoswyd drwy'r ymchwil hwn sut y gellir hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig drwy'r pwnc Hanes yng Nghyfnod Allweddol 2. Fe lwyddwyd i gasglu ymatebion i'r holiaduron gan amryw o athrawon CA2 llawn amser, dirprwy bennaeth (sydd hefyd yn athro CA2 rhan-amser) ac athrawon llanw sy'n addysgu yn achlysurol.

Roedd yr ystod o gyfranogwyr a gyfrannodd at yr ymchwil yn sicrhau amrywiaeth o ymatebion, barnau a syniadau am sut y gellir hyrwyddo'r CC yn llwyddiannus. Drwy drafod ag athrawon llanw sy'n addysgu yn achlysurol, roedd posib cymharu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r CC ag athrawon llawn amser. Gellir dweud bod gan yr athrawon llanw lai o wybodaeth am beth ydy'r CC, beth yw ei bwrpas, sut mae'n cyfrannu at addysg yn yr ysgol gynradd a beth yw'r ffyrdd fwyaf effeithiol o'i hyrwyddo trwy'r pwnc Hanes. Y prif reswm am hyn yw'r ffaith nad yw'r athrawon llanw yma yn derbyn arweiniad diweddar neu gyrsiau am y CC drwy ysgol benodol ac felly ceir diffyg datblygiad yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cwricwlwm. Yn ogystal, ceir cyfleoedd cyfyngedig i arbrofi â'r CC a'i integreiddio trwy'r pynciau gan addysgu gan eu bod yn ddihyder neu'n ansicr o sut i'w gynnwys yn y gwersi. O ganlyniad felly, dylid sicrhau bod pob athro/ athrawes yn derbyn arweiniad a gwybodaeth am y CC a'r ffyrdd gorau o'i hyrwyddo. Gellir gwneud hyn drwy gynnal cyrsiau arbennig sy'n rhoi cymorth i athrawon llawn amser a rhan-amser yn ogystal.

Oherwydd natur yr ymchwil a'r hyn ag ymchwiliwyd iddo, sef sut y gellir hyrwyddo'r CC trwy Hanes yng Nghyfnod Allweddol 2, ni welwyd cyfleoedd addas i holi disgyblion am eu barn nhw o'r CC. Prif ddiben yr ymchwil oedd darganfod sut mae athrawon cyfredol yn hyrwyddo'r CC, felly athrawon ac oedolion proffesiynol oedd y prif gyfranogwyr. Wedi dweud hynny, gellir fod wedi holi disgyblion sut fath o weithgareddau a sesiynau maent yn eu derbyn yn ymwneud â Chymru a Chymreictod. Credir yn gryf ei bod yn bwysig cynllunio o amgylch y disgyblion a'u cynnwys wrth gynllunio pob agwedd o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Gellir dod i'r casgliad bod yr ymchwil wedi bod yn llwyddiannus o ran cynnig syniadau a dulliau effeithiol o hyrwyddo'r CC trwy Hanes. Fe awgrymwyd sut y gellir gwneud hynny gan athrawon ac unigolion proffesiynol eraill, ac un o'r prif bwyntiau a ddeuir yn amlwg o'r ymchwiliad oedd sicrhau bod y disgyblion yn magu ymdeimlad o berthyn ynghyd â datblygu dealltwriaeth o Gymru a Chymreictod. Amlygwyd yn glir fod angen i athrawon greu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'r ymdeimlad yma trwy bob pwnc yn yr ysgol gynradd, o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 ac yna ymhellach yn yr ysgol uwchradd. Amlygwyd mai rhai o'r ffyrdd gorau o wneud hynny yw drwy ddefnyddio'r adnoddau ac arteffactau perthnasol sydd

ar gael er mwyn cyfoethogi'r dysgu a'r addysgu. Profir bod ymweliadau addysgol yn gallu cyfrannu'n sylweddol at hyrwyddo'r CC, yn ogystal â magu cysylltiadau agos ag ysgolion mewn gwledydd tramor.

Wrth ddarparu'r cyfleoedd gorau posib i'n disgyblion, gallwn sicrhau eu bod yn datblygu ymdeimlad o berthyn i'w gwlad a'u hardal leol ac yn datblygu eu Cymreictod. Gwelwyd bod y pwnc Hanes yn darparu cyfleoedd gwych a naturiol i hyrwyddo'r CC a dylid manteisio ar bob cyfle er mwyn cefnogi'n disgyblion i dyfu'n unigolion cyflawn a hyderus o'u diwylliant a'u hunaniaeth Gymreig.

Cyfeirnod:

APADGOS (2008) *Hanes yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Awdur anhysbys. (2013) 'The Primary education journal of The Historical Association', *Primary History*, 63, Spring, pp.8-16.

Cymru: Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (2003) *Datblygu'r Cwricwlwm Cymreig*. Caerdydd: ACCAC.

Cyngor Cwricwlwm Cymru (1993) 'Datblygu Cwricwlwm Cymreig' Ar gael ar: <file:///C:/Users/HP/Downloads/YCCCymraegPapurYmgynghorol2018.pdf> [Accessed: 5ed o Ebrill 2015]

Donaldson, G. (2015) 'Dyfodol Llwyddiannus- Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru' Ar gael ar: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150317-successful-futures-cy.pdf> [Accessed: 7fed o Ebrill 2015]

Estyn: (2000) *Anelu at Ragoriaeth mewn Hanes*. Caerdydd: Estyn.

Estyn: (2001) *Y Cwricwlwm Cymreig: Dimensiwn Cymreig y cwricwlwm yng Nghymru: arfer dda mewn addysgu a dysgu*. Caerdydd: Estyn.

Estyn: (2006) *Y Cwricwlwm Cymreig, Cyfnod 2*. Caerdydd: Estyn.

Grigg, R. a Hughes, S. (2013) *Teaching Primary Humanities*. Harlow: Pearson Publications.

Institute of Education (1991) *History in the National Curriculum*. London: The Institute of Education.

Johnston, J. et al (2002) *Teaching the Primary Curriculum*. Buckingham: Open University Press.

Learning Wales (2013) 'Ymgynghori ar yr adroddiad dros dro ar Y Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru' Ar gael ar: learning.wales.gov.uk [Accessed: 6ed o Ebrill 2015]

White, J. (2004) *Rethinking the School Curriculum*. Oxon: Routledge Falmer.

